# Y Pwyllgor Deisebau

## "Cofnodion: PET(3) 15-10 : Dydd Mawrth 30 Tachwedd 2010"

Gellir gwylio'r cyfarfod hwn ar Senedd TV ar: http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf

**Amser:** 09.30 – 10.21
**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 1, y Senedd, Bae Caerdydd

**Aelodau'r Cynulliad yn bresennol**

Christine Chapman AC, Cwm Cynon (Cadeirydd)
Andrew RT Davies AC, Canol De Cymru
Veronica German AC, Dwyrain De Cymru
Bethan Jenkins AC, Gorllewin De Cymru

**Swyddogion**

Naomi Stocks, Clerc
Andrew Minnis, Dirprwy Glerc
Joanest Jackson, Cynghorydd Cyfreithiol
Rhodri Wyn Jones, Cymorth Pwyllgor

### Eitem 1. Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

Croesawodd y Cadeirydd aelodau'r Pwyllgor a'r cyhoedd.

### Eitem 2. Deisebau newydd

**P-03-266 Ail-agorwch Reilffordd yr Wyddgrug**

Ystyriodd y Pwyllgor y ddeiseb hon am y tro cyntaf.

Pwyntiau gweithredu:

Cytunodd y Pwyllgor i:

aros am ymateb gan y Dirprwy Brif Weinidog.

**P-03-288 Strategaeth Genedlaethol ar Fyw'n Annibynnol**

Ystyriodd y Pwyllgor y ddeiseb hon am y tro cyntaf.

Pwyntiau gweithredu:

Cytunodd y Pwyllgor i:

aros am ymateb gan y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol.

**P-03-308 Achub Theatr Gwent**

Ystyriodd y Pwyllgor y ddeiseb hon am y tro cyntaf.

Pwyntiau gweithredu:

Cytunodd y Pwyllgor i:

aros am ymateb gan y Gweinidog dros Dreftadaeth.

**P-03-309 Caerdydd yn erbyn y llosgydd**

Ystyriodd y Pwyllgor y ddeiseb hon am y tro cyntaf.

Pwyntiau gweithredu:

Cytunodd y Pwyllgor i:

aros am ymateb gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai

**P-03-310 Polisïau sy'n Helpu i Ddiogelu Anghenion a Hawliau Disgyblion**

Ystyriodd y Pwyllgor y ddeiseb hon am y tro cyntaf.

Pwyntiau gweithredu:

Cytunodd y Pwyllgor i:

aros am ymateb gan y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes.

## Eitem 3. Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

**P-03-085 Meddygfeydd yn Sir y Fflint**

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

Cam i'w gymryd

Cytunodd y Pwyllgor i:

ysgrifennu at Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i ofyn am y wybodaeth ddiweddaraf am y datblygiadau mewn perthynas â'r trafodaethau gyda Chyngor Sir y Fflint;

ysgrifennu at y deisebwyr i'w gwneud yn ymwybodol o ymateb Bwrdd Iechyd y Brifysgol, gan dynnu sylw at y ffaith bod y Bwrdd wedi nodi y bydd yn cynnwys y deisebwyr yn y broses ddatblygu ac i ofyn am y wybodaeth ddiweddaraf am effeithiolrwydd y cysylltiad hwn.

**P-03-150 Safonau Canser Cenedlaethol**

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

Cam i'w gymryd

Cytunodd y Pwyllgor i:

ysgrifennu at y deisebwyr i ofyn am eu barn ar yr ymatebion a gafwyd gan y Byrddau Iechyd gan ofyn a yw'r rhain yn adlewyrchu'u profiad o wasanaethau canser; ac

ysgrifennu at y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i ofyn am amserlen ddiwygiedig ar gyfer cydymffurfio â Safonau Cenedlaethol ac i ofyn beth yw rôl safonau canser os na ragwelir unrhyw amserlen.

**P-03-200 Camlas Morgannwg**

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

Cam i'w gymryd

Cytunodd y Pwyllgor i:

ysgrifennu at y deisebwyr, gyda manylion yr ymatebion gan Fwrdd Iechyd Lleol Rhondda Cynon Taf a Bwrdd Iechyd Lleol Caerdydd a'r Fro;

ysgrifennu at Gyngor Caerdydd i ofyn am y wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd gyda'r Cynllun Rhwydwaith Beicio Strategol; ac

ysgrifennu at Gyngor Rhondda Cynon Taf i ofyn am y wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd gyda'r cais SEWTA.

**P-03-207 Cymorth i'r di-waith ym Mynwy**

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

Cam i'w gymryd

Cytunodd y Pwyllgor i:

gau'r ddeiseb a chyhoeddi adroddiad cloi cryno.

**P-03-211 Cyfleusterau Gofal i Ddioddefwyr Demensia.**

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

Cam i'w gymryd

Cytunodd y Pwyllgor i:

ysgrifennu at y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i fynegi pryderon Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru am effaith y toriadau yn y gyllideb ar y rhai mwyaf bregus, gan ofyn sut y mae'n bwriadu lleddfu hyn mewn perthynas â gwasanaethau demensia ac ar ba ffurf y bydd y gwasanaethau hyn yn y dyfodol.

**P-03-226 Sands – yr elusen dros farw-enedigaethau a marwolaethau ymysg plant newydd-anedig**

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

Cam i'w gymryd

Cytunodd y Pwyllgor i:

gau'r ddeiseb a chyhoeddi adroddiad cloi cryno.

**P-03-231 Pa mor agos yw tyrbinau gwynt at dai preswyl**

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

Cam i'w gymryd

Cytunodd y Pwyllgor i:

ysgrifennu at Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i ofyn am ei barn ar y ddeiseb a gofyn a yw awdurdodau cynllunio lleol yn defnyddio parth clustogi mwy na'r lleiaf a nodir yn Nodyn Cyngor Technegol 8 wrth ddod i benderfyniadau ynglyn â chynllunio.

**P-03-234 Mae ar Gymru angen Mwy o Goed Brodorol**

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

Cam i'w gymryd

Cytunodd y Pwyllgor i:

ysgrifennu at y Gweinidog dros Faterion Gwledig i fynegi pryderon y deisebwyr am isafswm y trothwy ar gyfer cymhwysedd grant ac i ofyn a ellir diwygio Grantiau Creu Coetiroedd Glastir er mwyn mynd i'r afael â'r pryderon hyn.

**P-03-237 Cefn Gwlad Cymru**

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

Cam i'w gymryd

Cytunodd y Pwyllgor i:

gau'r ddeiseb a chyhoeddi adroddiad cloi cryno.

**P-03-241 Llanelli Star – Achubwch ein Carthffosydd**

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

Cam i'w gymryd

Cytunodd y Pwyllgor i:

ysgrifennu at y deisebwyr i ofyn am eu barn ar yr ymateb gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai.

**P-03-243 Tynnu'n ôl yn ffurfiol o'r strategaeth isranbarthol Gorllewin Caer / Gogledd-ddwyrain Cymru**

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

Cam i'w gymryd

Cytunodd y Pwyllgor i:

aros am ganlyniad Cyfarfod Blynyddol Cynghrair Mersi a Dyfrdwy ym mis Ionawr 2011;

ysgrifennu at y Gweinidog dros Fusnes a Chyllidebau i ofyn am eglurhad o'r hyn y mae'n ei olygu wrth 'danlinellu' y strategaeth.

**P-03-263 Rhestru Parc y Strade**

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

Cam i'w gymryd

Cytunodd y Pwyllgor i:

ysgrifennu at y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai i ofyn am eglurhad ynghylch sefyllfa galw ceisiadau cynllunio i mewn;

ysgrifennu at y Cyngor i ofyn am eglurhad ynghylch y cynlluniau ar gyfer parc coffa, gan amlygu prif bryderon y deisebwyr.

**P-03-265 Cynnwys gwybodaeth ac addysg am adael cartref yn y Cwricwlwm Cenedlaethol**

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

Cam i'w gymryd

Cytunodd y Pwyllgor i:

aros am ragor o fanylion arfarniad Housemate.

**P-03-274 Cynllun Sgrapio Boileri**

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

Cam i'w gymryd

Cytunodd y Pwyllgor i:

gau'r ddeiseb a chyhoeddi adroddiad cloi cryno.

**P-03-276 Cynnig dros Ferched**

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

Cam i'w gymryd

Cytunodd y Pwyllgor i:

ysgrifennu at y deisebwyr i ofyn am eu barn ar y cynnydd a amlinellwyd yn yr adroddiad ar y Cynllun Gweithredu Cerdded a Beicio

**P-03-279 Achubwch Brifysgolion Cymru**

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

Cam i'w gymryd

Cytunodd y pwyllgor i:

aros am y datganiad yn y Cyfarfod Llawn gan y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes ar y Strategaeth Addysg Uwch

**P-03-284 Tai Cymdeithasol Brynmawr**

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

Cam i'w gymryd

Cytunodd y Pwyllgor i:

gau'r ddeiseb a chyhoeddi adroddiad cloi cryno.

**P-03-285 Gwrthwynebwch y Cynllun i Ddifa Moch Daear**

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

Cam i'w gymryd

Cytunodd y Pwyllgor i:

aros am ganfyddiadau'r ymgynghoriad cyhoeddus.

**P-03-290 Pwerdy Dowlais**

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

Cam i'w gymryd

Cytunodd y Pwyllgor i:

gau'r ddeiseb a chyhoeddi adroddiad cloi cryno.

**P-03-292 Darparu Toiledau Cyhoeddus**

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

Cam i'w gymryd

Cytunodd y Pwyllgor i:

ysgrifennu at y deisebwyr i ofyn am eu barn ar ohebiaeth y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, yn ogystal â'r ddadl fer yn y Cyfarfod Llawn ar y mater.

**P-03-295 Gwasanaethau Niwroadsefydlu Paediatrig**

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

Cam i'w gymryd

Cytunodd y Pwyllgor i:

ysgrifennu at y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol:

i ofyn am ragor o wybodaeth am yr amserlen ddisgwyliedig ar gyfer cwblhau manyleb fanwl y gwasanaeth niwroleg paediatrig gan Fwrdd Iechyd Lleol Caerdydd a'r Fro;

i amlygu pryderon y deisebwyr nad yw'r arian ar gael yn llawn ar gyfer gwasanaethau adsefydlu; ac

i ailadrodd y cais am wybodaeth am nifer y cleifion sydd angen gwasanaethau niwroadsefydlu paediatrig arbenigol dwys

**P-03-299 Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru**

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

Cam i'w gymryd

Cytunodd y Pwyllgor i:

gau'r ddeiseb a chyhoeddi adroddiad cloi cryno.

**P-03-301 Cydraddoldeb i'r Gymuned Drawsryweddol**

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

Cam i'w gymryd

Cytunodd y Pwyllgor i:

ysgrifennu at y deisebwyr i'w gwahodd i gyflwyno tystiolaeth i'r pwyllgor, ac i ofyn iddynt egluro ymlaen llaw a ydynt wedi gwneud cais am arian gan Lywodraeth Cymru.

## Cytunodd y Pwyllgor i gynnal gweddill y cyfarfod mewn sesiwn breifat o dan Reol Sefydlog 10.37

## Eitem 5. Trafod yr adroddiad drafft

Cytunodd y Pwyllgor ar yr adroddiad drafft ar ddysgu seiliedig ar waith ar gyfer pobl ifanc sy'n agored i niwed.

**Gwasanaeth y Pwyllgorau**
**Tachwedd 2010**